**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/HG

26 Hydref 2017

Annwyl Huw

**Diwygio'r Cynulliad: anghymhwyso**

Yn fy llythyr ar 18 Awst, amlinellais y gwaith y mae Comisiwn y Cynulliad yn arwain arno ar ran y Cynulliad i ystyried sut y byddai'r pwerau yn Neddf Cymru 2017 sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol a sefydliadol y Cynulliad o bosib yn cael eu harfer. Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol o ran difenwi, dirmyg y llys a braint y Cynulliad yn ei bryd.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad i anghymwyso person rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad yn 2014. Mae argymhellion y Pwyllgor yn cynnwys nifer sy'n galw am newid deddfwriaethol (gweler yr Atodiad i'r llythyr hwn). Ar y pryd, nid oedd y materion hyn o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Fodd bynnag, gallai datganoli pwerau dros drefniadau etholiadol y Cynulliad o fis Ebrill 2018, a datblygu deddfwriaeth Diwygio'r Cynulliad, fod yn gyfle i roi argymhellion y Pwyllgor ar waith.

Byddwn yn croesawu barn eich Pwyllgor ar sut y dylid datblygu argymhellion eich rhagflaenwyr, ac a oes unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag anghymhwyso y dylid eu hystyried fel rhan o ddatblygiad Bil Diwygio'r Cynulliad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Rwy'n ymwybodol iawn o faich gwaith sylweddol eich Pwyllgor a'r angen i chi gydbwyso blaenoriaethau amrywiol.  Am y rheswm yma, ysgrifennaf atoch mewn da bryd er mwyn i chi gael y cyfle gorau posibl i ddylanwadu ar ddatblygiad y deddfwriaeth.

Byddai'n ddefnyddiol derbyn eich sylwadau ar unrhyw faterion y gallai fod angen newid deddfwriaethol arnynt fel rhan o'r rhaglen ddiwygio erbyn diwedd 2017.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

**Atodiad: Argymhellion perthnasol ar anghymhwysiad a wnaed gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad**

| |
|---|
| **Argymhelliad 2** - rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth berthnasol i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn i'r broses anghymhwyso o swydd gyhoeddus benodol ddod i rym adeg tyngu'r llw teyrngarwch neu gymryd y cadarnhad o deyrngarwch fel Aelod Cynulliad. Ni ddylai'r newid hwn fod yn berthnasol i nifer bach iawn o swyddi - fel y nodir yn adran 16 o Ddeddf 2006 neu drwy orchymyn - lle y byddai bod yn ymgeisydd, er enghraifft, yn arwain at wrthdaro rhwng buddiannau neu ymddangos fel petai'n tanseilio didueddrwydd. |
| **Argymhelliad 3** - rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno deddfwriaeth briodol i gael gwared â'r darpariaethau perthnasol yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr, wrth dderbyn enwebiad, ddatgan nad ydynt, hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred, yn dal swydd sy'n eu hanghymhwyso. |
| **Argymhelliad 5** - rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn diwygio adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sicrhau bod unrhyw anghymwysiadau ynddi yn cael eu nodi'n llawn yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddeddfwriaeth arall a bod yr holl anghymwysiadau a bennir ynddi yn dod yn weithredol adeg enwebu. |
| **Argymhelliad 6** - rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn diwygio adran 16(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i dynnu'r Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, er mwyn gallu'u cynnwys mewn gorchymyn anghymhwyso priodol gyda swyddi eraill. |
| **Argymhelliad 7** - rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn diwygio adran 16(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y dylai person sy'n dal swydd arglwydd raglaw, rhaglaw neu uchel siryf gael ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad. |
| **Argymhelliad 21** - rydym yn argymell bod Llywodraeth y DU yn gwahardd yr arfer o sefyll fel Aelod Cynulliad ac fel Aelod o Dŷ'r Arglwyddi, ond na ddylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i unrhyw un sydd ar hyn o bryd yn gwasanaethu fel aelod o'r ddau sefydliad. |